

Cylchlythyr Mis Ebrill



Gyda gwyliau Pasg yn hwyr eleni, dim ond pythefnos o ysgol sydd yn cael ei gynnwys yn y cylchlythyr hwn. Er hyn, mae staff a disgyblion wedi bod yn gweithio'n galed dros y pythefnos cyn y gwyliau Pasg haeddianol.

Ar derfyn mis Mawrth cynhaliwyd **Eisteddfod Sir** yr Urdd yn Ysgol Uwchradd y Drenewydd. Llongyfarchiadau mawr i Seren Williams a gafodd lwyfan ac 2il yn yr unawd blwyddyn 3 a 4. Canodd y côr a'r parti unsain yn fendigedig ond yn anffodus ni gafon lwyfan. Diolch mawr i Mrs Turner a Miss Watkins am eu hymroddiad.

Mae **Cyfnod Sylfaen** wedi cael hwyl dros yr hanner tymor diwethaf wrth ddysgu am y Gofod. Mae nhw wedi bod yn ysgrifennu llythyr i Tim Peake, dysgu beth sy'n gwneud gofodwr da, ymchwilio pa ddeunyddiau sy'n gwneud siwt gofod da ac ysgrifennu straeon gofod.

Mae **Cyfnod Allweddol 2** wedi bod yn parhau eu gwaith ar drychinebau, ysgrifennu adroddiadau am y Titanic, ysgrifennu ymson am Aberfan a chreu cyflwyniadau Powerpoint am Pompeii.

Mae ein bocs ailgylchu batri wedi cael ei lenwi unwaith eto. Diolch yn fawr am ailgylchu eich batris. Rydym nawr wedi casglu cyfanswm o 22kg. Yn ogystal ag amddiffyn yr amgylchedd, mae posib i'r ysgol gael ei wobrwyo am gasglu cymaint, felly parhawch i'w gyrru i mewn!

Yn ystod y 6 mis diwethaf, mae blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn lwcus i dderbyn **hyfforddiant hoci** bob prynhawn Llun gan Kirsty Benbow o Hoci Cymru. Mae'r disgyblion i gyd, yn y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2, wedi bod yn datblygu eu sgiliau hoci gyda fi a Mrs Roberts-Law. Mae'r disgyblion wedi mwynhau chwaraeon datrys problemau a gwaith grŵp. Mae Cyfnod Allweddol 2 hefyd wedi bod yn gwneud cyrsiau cyfeiriadu o amgylch yr ysgol.

Da iawn i Eva Jones ac Elen Jones am ennill gwobrau am eu lluniau Pasg ar gyfer **cystadleuaeth lliwio'r Ysgub**. Cawson ŵyau Pasg fel gwobr.

Fel rhan o **Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth**, bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn creu bathodynau a lluniau teimladau wrth ddysgu mwy am Awtistiaeth. Bydd wal yn neuadd yr ysgol yn arddangos gwaith celf y disgyblion.

Ar Ddydd Mawrth, cefais y pleser o gymryd naw merch a oedd wedi ymddwyn yn wych i Drenewydd i chwarae yng **Nghystadleuaeth Rygbi TAG yr Urdd**. Roedd y tywydd yn wael ond ni gwynodd neb a chwaraeson rygbi gwych yn y mwd a'r glaw. Enillon nhw un gem a cholli'r tair arall ond roedden wedi chwarae gyda brwdfrydedd a gwen ar eu wyneb. Wrth drafod llwyddiannau merched mewn chwaraeon, roeddwn yn falch iawn i glywed fod 6 allan o'r 9 merch a ddewiswyd ar gyfer fîm pêl-rhwyd blwyddyn 7 yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin, yn ferched o Ysgol Llanrhaeadr gynt. Da iawn i Freya, Ffion, Alice, Sophie, Nia a Zoe. Mae'n wych gweld cyn ddisgyblion yn parhau gyda'u brwdfrydedd yn y byd chwaraeon.

Llongyfarchiadau i Evan Roberts am ennill ei gystadleuaeth yn y digwyddiad **Traws Gwlad Sir** yn Llanfair ym Muallt. Da iawn ti!

Llongyfarchiadau i'r Ysgol Eco ac i Mrs Roberts-Law am eu gwaith caled i ennill **Baner Werdd Eco: Adnewyddiad Platinwm 1af**. Mae'r cyngor wedi bod yn cwblhau prosiectau fel 'Mercher Mynd' a chasglu sbwriel o amgylch yr ysgol yn ogystal â fod yn gyfrifol am wagu binau ail gylchu bob wythnos. Roedden hefyd wedi helpu trefnu'r diwrnod dysgu yn yr awyr agored flwyddyn diwethaf. Mae diwrnod arall tebyg yn cael ei gynllunio ar gyfer tymor yr Haf.

Da iawn i Dewi Griffiths o ddsbarth Mrs Turner am siarad yn fyw ar BBC Radio Cymru am "Y peth gorau a ddigwyddodd i mi.." ar eu sioe brechwast gyda Dafydd a Carol. Siaradodd Dewi yn wych ac roedd wedi creu argraff gyda'u stori am wyna.

Da iawn i Manny Best, disgybl dosbarth Derbyn, a gymrodd rhan mewn sioe geffylau yn Much

Wenlock ar Ddydd Mercher. Roedd Tywysoges Anne yn mynychu'r sioe wrth agor y 'Cavalier Centre' ar gyfer marchogion anabl. Cafodd Manny rhosglwm gan Tywysoges Anne am ei waith gwych.

Rydym yn lwcus i gael menthyg set o robotiaid 'Edison' ar gyfer y tymor. Mae'r disgyblion wedi bod yn eu defnyddio yn eu prosiect **STEM** (Gwyddoniaeth Technoleg Peirianeg a Maths) gyda Miss Watkins. Mae'r Arweinwyr Digidol wedi bod yn brysur hefyd wrth groesawu disgyblion Ysgol Pennant i'r ysgol gyda gweithdy Minecraft Education Edition. Am fwy o wybodaeth am TGCh yn Ysgol Llanrhaeadr, darllenwch y cylchlythyr digidol diweddaraf sydd yn cynnwys gwybodaeth am Minecraft.

Wrth ddatblygu cymhwysedd digidol disgyblion, mae Hwb wedi cyhoeddi newyddion gwych. Yn fuan iawn, ar ôl Pasg, bydd pob disgybl yn cael mynediad AM DDIM i offer **Microsoft Office**. Mae hyn yn golygu y bydd defnyddwyr Hwb yn gallu lawrlwytho offer fel Word, Excel a Powerpoint ar gyfer uchafswm o 5 dyfais.

Hyd yn hyn, mae **ParentMail** wedi bod yn llwyddiannus iawn a diolch i chi am eich amynedd gyda'r broses cofrestru. Rydym wedi cael rhai problemau, ond rydym nawr yn dod yn fwy cyfarwydd â'r ap ac mae wedi bod yn llwyddiannus wrth yrru a derbyn ffurfleni, llythyron/ebyst, digwyddiadau, noson rhieni a cofnodi salwch. Ar ôl y Pasg fydd pob cysylltiad drwy yr ap. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu eisiau ychwanegu rhiant arall, cysylltwch â ni. Hyd yn hyn, drwy ddefnyddio'r ap, rydych wedi helpu'r ysgol arbed £75.53 o arian a wariwyd ar ffotogopio.

Ar ddechrau tymor yr Haf, mi fyddwn yn cau ein grŵp **Facebook** a byddwn yn creu grŵp Facebook caeëdig. Mae hyn am nifer o resymau, ond yn bennaf ar gyfer diogelwch. Bydd rhieni yn cael eu derbyn i'r grŵp ac os ydych eisiau i berthnasau eraill gael mynediad, cysylltwch â'r ysgol.

Mae'r disgyblion a'r staff wedi gweithio'n galed iawn tymor hwn, a mae pawb yn haeddu seibiant. Gobeithio y cewch chi wyliau Pasg llawn hwyl ac amser gyda theulu.

Cofion



Mr Jonathan Richards

12/4/19	Diwrnod dim disgybl CRhA Bingo Pasg 6.30yh	Hysbysiadau
15 – 26 Ebrill	Gwyliau Pasg	Bagiau Dillad Dreigiau Elusen casglu dillad Gorffennaf 10fed.
1/5/19	WASPS 4 Area Gala	Clwb chwaraeon (ar ôl y Pasg) Wednesdays until 4.30pm Dydd Mercher tan 4.30yh.
2/5/19	Traws Gwlad Marches rhif 3	Batris Rydym yn parhau i gasglu batri i obeithio hel arian ar gyfer yr ysgol.
6/5/19	Gwyl y banc	Ar Ddydd Mercher 22ain o Fai byddwn yn cynnal noswaith glanhau/tacluso ardd yr ysgol. Byddai helpi gan disgyblion a rhieni yn cael ei werthfawrogi'n fawr.
11/5/19	Hwyl Haf CRhA Traws Gwlad Urdd @ Aberystwyth	Gadewch i ni wybod eich barn am y cylchlythyr newydd.
15/5/19	Mesuriadau Derbyn (Nyrs Ysgol)	Cysylltwch a ni gyda unrhyw ymholiadau ar 01691780352 neu office@llanrhaeadr.powys.sch.uk
16/5/19	Lluniau teulu/unigolion a dosbarth Traws gwlad Marches rhif 4	Gwelwn ni chi yn ôl yn yr ysgol ar Ddydd Llun 29ain o Ebrill!
17/5/19	Tennis @ Llanfyllin (Pawb yn CA2)	
23/5/19	Gala Gogledd Powys	
24/5/19	WASPS hoci @ Welshpool	
27– 31 Mai	Gwyliau hanner tymor	
5/6/19	Mabolgampau	
13/6/19	Chwaraeon ardal @ Llanfyllin	

